# Cig a chynhyrchion cig

21 Mawrth 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Daeth y cais hwn, a gafodd ei drosglwyddo inni gan Lywodraeth Cymru, i law ar 5 Mawrth. Gofynnwyd y cwestiwn a ganlyn gennych:

*A allwch chi ddatgan lle mae Llywodraeth Cymru yn prynu'r cig a'r cynhyrchion cig sy'n cael eu gweini yn y Senedd ac yn swyddfeydd eraill Llywodraeth Cymru?*

Yn gyntaf, hoffwn wahaniaethu rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Daeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym yn 2007, gan wahanu'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru fel endidau cyfreithiol.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Comisiwn y Cynulliad, sef corff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n gyfrifol am gaffael y cig a'r cynhyrchion cig sy'n cael eu gweini yn y Senedd.

Mae'r bwyd sy'n cael ei ddarparu yn y caffi cyhoeddus ac yn ystafell de'r Aelodau yn y Senedd yn cael ei ddarparu fel rhan o gontract arlwyo'r Comisiwn gyda Charlton House Limited. Er mwyn sicrhau tarddiad y bwyd a ddarperir yn y Senedd, caiff cyflenwyr Charlton House eu dethol yn dilyn gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy trylwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch bwyd a tharddiad y cyflenwad. Caiff cyflenwyr cymeradwy eu hailarchwilio bob blwyddyn. Mae'r prosesau a'r systemau hyn yn sicrhau y daw'r amrywiaeth eang o fwyd a ddarperir ar ystad y Cynulliad gan gyflenwyr a archwiliwyd ac a gymeradwywyd.

Mewn perthynas â chynhyrchion cig, defnyddir yr eitemau a ganlyn yn y Senedd:
- Selsig porc a chenin o Gastell Howell, a wneir gan ddefnyddio porc Celtic Pride
- Selsig Cumberland a selsig cig oen a mintys o Langford's yn y Trallwng
- Tafelli o gigoedd wedi'u coginio (ham, cig eidion, porc a thwrci) o Celtic Cuisine, Castell Howell

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost / E-mail: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae Castell Howell yn gyfanwerthwr sy'n cydlynu cyflenwadau gan ystod o gyflenwyr Cymreig llai. Mae Castell Howell ar y rhestr o gyflenwyr a gymeradwywyd. Defnyddir yr eitemau a ganlyn o gig, sy'n cydymffurfio â Gwarant Fferm Da Byw Cymru, o fewn y contract arlwyo ac yn y Senedd:

- Cig eidion Celtic Pride
- Cig oen Cymreig
- Porc Celtic Pride
- Mae cig cyw iâr tractor coch yn cael ei gaffael o'r cigydd John Shepherd ym Mryste.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**